Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd trwy gyfrwng fideo gynadledda Zoom nos Lun, 15 Mehefin 2020, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Mike Van Der Eik ac Ifan Wyn.
Ynghyd â'r Cynghorydd Sir Emrys Wynne.

261. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawodd y Maer bawb i ail gyfarfod rhithiol y Cyngor. Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

262. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad buddiannau.

263. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi BAd yn neu'n ymwneud â'r digwyddiadau isod:

16.05	Diweddariad Cymuned Rhuthun Wythnos 8 – wedi'i ffilmio yn yr Hen Lys
18.05	Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
23.05	Diweddariad Cymuned Rhuthun Wythnos 9 – wedi'i ffilmio yn yr Hen Lys
30.05	Diweddariad Cymuned Rhuthun Wythnos 10 – wedi'i ffilmio yn yr Hen Lys
01.06	Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
	Nifer o gyfarfodydd ynghylch y Felodrom trwy Zoom

264. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Dirprwy Faer)	Cyfarfod ynghylch y Felodrom gyda'r ymgynghorwyr trwy Zoom, cyfarfodydd Partneriaeth Cyrchfan Sir Ddinbych trwy Zoom a chyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys trwy Zoom.
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Dim i'w adrodd.
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod ffôn gyda thrigolion ynghylch problemau cynnal a chadw coed.
Cyng. Jim Bryan	Dim i'w adrodd.
Cyng. Ken Hawkins	Dim i'w adrodd.
Cyng. John Wynne Hughes	Dim i'w adrodd.
Cyng. Menna Jones	Cynorthwyo gyda'r Banc Bwyd BAb wythnos a chyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Pen Barras trwy Zoom.
Cyng. Ian Lewney	Dim i'w adrodd.
Cyng. Jabez Oakes	Dim i'w adrodd.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Dim i'w adrodd.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys trwy Zoom.
Cyng. Dave Snape	Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys.
Cyng. Mike Van Der Eik	Dim i'w adrodd.
Cyng. Ifan Wyn	Dim i'w adrodd.

265. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Cyflwynodd y Cynghorydd Emrys Wynne adroddiad ar ran y tri aelod sy'n cynrychioli ward Rhuthun.

266. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau BAd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2020 yn gofnod cywir.*

267. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

268. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Hysbyswyd yr aelodau fod Gweithgor yr Hen Lys wedi cynnal cyfarfod cyn cyfarfod y Cyngor. Mae'r gweithgor yn gweithio ar y strwythur gwirfoddolwyr, yr arddangosfa ddehongli yn yr adeilad a'r wefan wrth baratoi ar gyfer yr adeg y gellir agor y cyfleuster i'r cyhoedd.
PENDERFYNWYD*: derbyn y diweddariad.*

269. DIWEDDARIAD YNGHYLCH CAIS FELODROM GOGLEDD CYMRU

Adroddodd y Maer ei fod ef, y Dirprwy Faer a'r Clerc, ynghyd â Chydlynydd y Prosiect, Ruth Astbury, wedi cael cyfarfodydd gyda'r ymgynghorwyr, LK2, a oedd wedi llunio adroddiad drafft dechreuol ar sail y gwaith a wnaed hyd yma tra'n cydymffurfio gyda rheoliadau cyfyngiadau symud. Bydd yn cael ei ailddrafftio yn awr i gynnwys crynodeb gweithredol, prif gorff yr adroddiad ac atodiadau gyda manylion ychwanegol.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad ynghylch y cynnydd a wnaed hyd yma.*

270. DIWEDDARIAD YNGHYLCH SGWÂR SANT PEDR

Adroddodd y Maer BAd cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno addasiadau i gynllun gosod palmentydd a ffyrdd i hwyluso gofynion cadw pellter cymdeithasol i alluogi siopau a busnesau i ailagor a chyflwynwyd cais i alluogi cyflwyno system traffig un ffordd ar gyfer Stryd y Ffynnon a Stryd y Farchnad ar sail treialu. Gofynnodd y Cynghorydd Allsopp-Robson am ystyried hygyrchedd ar gyfer parcio bysiau moethus wrth yr Hen Lys wrth benderfynu ar y llwybrau un ffordd. Sefydlwyd grŵp llywio gan Gyngor Sir Ddinbych yn cynnwys y tri aelod sy'n cynrychioli ward Rhuthun. Dywedodd y Cynghorydd Emrys Wynne y byddai hyn yn cael ei ystyried.
PENDERFYNWYD*: derbyn y diweddariad.*

271. CYMORTH ARIANNOL A CHYFRANIADAU

Roedd yr aelodau wedi derbyn adroddiad ar y gyllideb cymorth ariannol a chyfraniadau gyda'r agenda. Diolchodd yr aelodau i'r Clerc am baratoi'r adroddiad yn dangos y gyllideb gyfredol sydd ar gael ar gyfer ceisiadau ariannol.
PENDERFYNWYD*: derbyn yr adroddiad.*

272. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Mai 2020. Hysbysodd y Clerc yr aelodau y derbyniwyd taliad o £1,476.00 am y costau i adnewyddu'r goeden Nadolig a ddifrodwyd, a chadarnhaodd BAd hyn yn cynrychioli'r swm llawn.
PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Mai 2020.*

273. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*
O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

BA	JB Platform Hire Ltd	Llogi'r peiriant codi gyda	*	£624.00

(bancio ar-lein)		gweithredydd ar 28 Ebrill a 21 Mai 2020		
DU	Public Works Loan BAard	Ad-daliad benthyciad yr Hen Lys – 24.06.2020		£3,515.42
BA	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau dyfrio a bwyd planhigion – Mai 2020		£593.25
BA	IT Williams Co	Cludo'r planwyr ar gyfer y basgedi crog	*	£528.00
BA	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£719.81
BA	Hill & Roberts	Ffi gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres – Mehefin 2020	*	£84.00
BA	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau torri glaswellt – Mehefin 2020		£554.76
BA	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu – Mai a Mehefin 2020	*	£180.00
O gyfrif Yr Hen Lys Cyngor Tref Rhuthun:				
BA	Scottish Power	Cyflenwad trydan yr Hen Lys	*	£256.04
BA	BT Business	Cloud Phone a phecyn ffôn a band eang	*	£391.22

274. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 13 Gorffennaf 2020 am 7pm.*